POLISI ADDYSG BYWYD A PHERTHNASOEDD YSGOL BRO IDRIS

Cyflwyniad: Mae Ysgol Bro Idris yn aelod o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac yn unol â'r Cynllun yn adolygu Polisi Addysg Rhyw & Pherthnasoedd **yn flynyddol**.

Cred yr ysgol fod ei Rhaglen Addysg Rhyw a Pherthynas yn cefnogi disgyblion drwy gyfnod eu datblygiad corfforol, emosiynol, moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau cyfrifol deallus ynghylch eu bywydau.

Mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (APADGOS) 2008 yn yr adran Iechyd a Lles yn nodi: "Gellir helpu dysgwyr i gynnal eu hiechyd a'u lles emosiynol a chorfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad, a gwybod sut i'w diogelu eu hunain. Wrth i blant a phobl ifanc ddatblygu'n rhywiol, mae angen iddynt ddeall newidiadau corfforol, rheoli teimladau rhywiol a mwynhau cydberthnasau diogel, cyfrifol a hapus. Gellir galluogi'r dysgwyr hefyd i archwilio'u teimladau, datblygiadau hunanymwybyddiaeth a hunan barch, a datblygu eu hunan-dyb."

"Mae angen gosod addysg rhyw a pherthnasoedd mewn fframwaith clir o werthoedd ac ymwybyddiaeth o'r gyfraith ar ymddygiad rhywiol. Mae'n ofynnol cyflwyno agweddau megis bywyd teuluol yn ei holl ffurfiau amrywiol, gan gynnwys priodas, ymddygiad rhywiol, ystyriaeth sy'n ymwneud â bod yn rhieni, a materion sensitif megis erthyliad mewn modd cytbwys, ac mae'n ofynnol trafod materion moesegol mewn modd gwrthrychol. Dylai'r dysgwyr wybod ble a sut y mae cael gafael ar gymorth a gwybodaeth bersonol."

Yn unol â Deddf Addysg 2002, mae Ysgol Bro Idris yn diogelu a hyrwyddo iechyd a lles pob person ifanc.

Yn unol a'r Deddfwriaeth Cyfle Cyfartal mae'r ysgol yn sicrhau bod yr addysgu yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac yn annog cyfranogi ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

"Dylai rhaglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd alluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol". Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 019/2010

Mae Llywodraethwyr a Staff Ysgol Bro Idris yn hollol ymrwymedig i'r nodau ac amcanion a amlinellir ym Mholisi Addysg Rhyw a Pherthynas.

Nod: Nôd yr ysgol fydd cynnig rhaglen drefnus gynlluniedig i ymdrin â Rhyw a Pherthynas. Cyflwynir gwersi addysg gan aelodau o'r staff fydd wedi eu hyfforddi i gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthynas h.y. mewn gwersi ABaCh, Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol, Drama, Iaith ayb ynghyd â gweithgareddau traws gwricwlaidd ac all-gwricwlaidd.

Amcanion:

1. **Polisi Addysg Rhyw:** Cynnal datganiad polisi gweithredol a darparu copïau ohono yn ogystal â chopïau o gynnwys a threfn Addysg Rhyw yn yr ysgol yn rhad ac am ddim ar gyfer unrhyw riant sy`n dymuno eu gweld.

2. **Rhaglen Addysg Rhyw:** Amcenir at ddarparu rhaglen addysg rhyw drylwyr gan staff mewnol cymwys yn ogystal ag asiantaethau allanol sydd, ag ystyriaeth sensitif i gefndir a phersonoliaeth disgyblion, yn:

- annog agwedd gadarnhaol a chytbwys at rywioldeb.
- darparu gwybodaeth am berthynas gariadus, natur rhywioldeb a phrosesau cenhedlu dynol.
- galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau cyfrifol, rhesymegol wedi`u seilio ar wybodaeth.
- paratoi disgyblion i ystyried eu perthynas mewn dull iach a chyfrifol o fewn fframwaith o werthoedd ac ymwybyddiaeth o`r gyfraith.
- estyn cymorth i ddisgyblion adnabod goblygiadau corfforol, emosiynol a moesol yn ogystal â pheryglon rhai mathau o ymddygiad.
- annog disgyblion i werthfawrogi gwerth bywyd teuluol sefydlog, ysgwyddo cyfrifoldebau rhieni a`r angen i ymddwyn yn gyfrifol.
- galluogi disgyblion i ymgodymu ag agweddau o fywyd teuluol a pherthynas o fewn a thu hwnt eu rheolaeth e.e. dod â pherthynas i ben.
- yn cyfeirio at HIV, AIDS a heintiau rhywiol eraill, ymddygiad rhywiol a phrosesau cenhedlu.

3. **Cyswllt â rhieni:** Amcenir at sicrhau fod rhieni yn ymwybodol o gynnwys y rhaglen addysg rhyw ac yn cael cyfle i ymateb a mynegi barn amdani.

4. **Rôl staff yr ysgol ac asiantaethau allanol**: Amcenir at sicrhau fod pob person sy`n cyflwyno addysg rhyw yn ymwybodol o`r cyfyngiadau cyfreithlon a geir ar gyflwyno addysg rhyw ac wedi cael hyfforddiant priodol.

Dulliau Gweithredu

1. **Ymgynghori:** Rydym yn ymgynghori â'r Corff Llywodraethol, athrawon sy'n cyflwyno'r pwnc, disgyblion, rhieni, nyrs ysgol, Cydlynydd Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac Ymgynghorwyr Addysg.

2. **Rhaglen Addysg Rhyw:** Darperir rhaglen Addysg Rhyw wedi`i sylfaenu yn bennaf ar wersi addysg rhyw penodol yn ogystal â chyfraniadau trawsgwricwlaidd achlysurol. Dysgir y gwersi penodol gan aelod o staff sy`n brofiadol yn maes Addysg Rhyw yn ogystal ag asiantaethau allanol proffesiynol.

3. **Hyfforddi Staff**: Ystyrir anghenion hyfforddiant staff Addysg Rhyw yn flynyddol a cheisir, o fewn cyfyngiadau adnoddau`r ysgol, gyflenwi`r anghenion hynny.

4. **Rôl Rhieni:** Mae'r ysgol yn ystyried Addysg Rhyw a Pherthynas fel cyfrifoldeb i'w rannu, a rhoddir gwybodaeth i'r rhieni am y Polisi, y rhaglen waith a'r adnoddau a ddefnyddir os y dymunir. Er mwyn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o gynnwys y rhaglen addysg ac yn cael cyfle i ymateb iddi dilynir y drefn isod:

    - Argraffir crynodeb o raglen Addysg Rhyw yn flynyddol yn llawlyfr yr ysgol.
    - Mae copi o`r polisi hwn a chrynodeb o`r rhaglen Addysg Rhyw ar gael yn yr ysgol a gall rhieni sy`n dymuno eu gweld drefnu hynny drwy gysylltu â`r Pennaeth Strategol/Penaethiaid Safle.
    - Mae croeso i rieni gysylltu â`r ysgol i drafod a mynegi barn am y rhaglen Addysg Rhyw.
    - Nodir y drefn uchod (pwyntiau 1-3) yn flynyddol yng nghylchlythyr yr ysgol.

Os oes gan riant/gofalwyr bryder mae croeso iddynt drefnu i drafod ag aelod o`r UDRH. Mae'r trefniant hwn wedi ei nodi yn llawlyfr yr Ysgol.

5. **Hawl rhieni i eithrio'u plant:** Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny nad yw'n rhan statudol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008. Rhaid iddynt anfon cais ysgrifenedig i'r ysgol os ydynt am ddefnyddio'r hawl hwn. Nid yw`r hawl hwn yn cynnwys yr hawl i atal plant rhag derbyn addysg yn yr elfennau hynny sy`n gynwysiedig o fewn y Gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol Gwyddoniaeth. Rhoddir gwybod i bob aelod o staff am unrhyw ddisgybl sydd, ar gais rhieni, yn cael ei atal o wersi Addysg Rhyw. Nodir y drefn hon yn llawlyfr yr ysgol.

6. **Cyngor am Ryw:** Mae`r llywodraethwyr yn derbyn:

- y bydd y broses o ddysgu pynciau sydd heb gysylltiad ag addysg rhyw yn achlysurol yn arwain at drafodaeth am ymddygiad rhywiol.
- fod athrawon a staff proffesiynol eraill sy`n rhoi addysg rhyw weithiau yn delio â materion ecsplisit ac yn gorfod ymateb i bryderon personol disgyblion ac anghenion am gyngor am agweddau megis atal cenhedlu.
- Mae`r Corff Llywodraethol yn cefnogi athrawon a staff proffesiynol eraill sydd, wrth gyfrannu`n ffurfiol neu anffurfiol at Addysg Rhyw, yn defnyddio eu barn broffesiynol, disgresiwn a synnwyr cyffredin wrth weithio o fewn y cyfyngiadau hynny a nodir yn y polisi hwn a`r canllawiau i athrawon.

7. Amddiffyn Plant: Dylid atgoffa holl aelodau staff yr ysgol fod ganddynt ddyletswydd i ddilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru os bydd unrhyw amheuaeth fod plentyn neu berson ifanc yn debygol o fod wedi cael ei gam-drin neu'n wynebu risg o ddioddef niwed arwyddocaol. Ni ddylai aelod o staff gytuno i gadw gwybodaeth o natur amddiffyn plentyn yn gyfrinach ond yn hytrach os bydd ganddo/i unrhyw bryder dylid dilyn ar unwaith Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru.

8. Rôl Arweinydd Pwnc/Maes Dysgu a Phrofiad mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fydd:

- Cydlynu a ffurfioli polisi ARaPh yr ysgol drwy gynnwys cyfraniad pawb all gyfrannu iddo.
- Rhoi gwybod i'r holl staff ac oedolion fydd yn cyflwyno ARaPh yn yr ysgol am gynnwys y polisi a'u goblygiadau hwy fel darparwyr.
- Monitro a gwerthuso'r cynllun gwaith a gofalu bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflawni.
- Cysylltu â chynrychiolwyr Cyfnodau Allweddol priodol i sicrhau bod ymdriniaeth ddigonol, dilyniant a chynnydd boddhaol.
- Monitro a gwerthuso'r rhaglen waith yn flynyddol a pharatoi datganiad ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol ar derfyn pob blwyddyn academaidd.
- Adolygu'r polisi, ei newid a'i ddiwygio os bydd angen o leiaf bob dwy flynedd.
- Asesu ac adnabod anghenion hyfforddiant staff yr ysgol fydd yn cyflwyno'r rhaglen.
- Adolygu, a diweddaru adnoddau ARaPh o leiaf unwaith y flwyddyn a mesur eu heffeithiolrwydd a'u haddasrwydd i anghenion disgyblion yr ysgol.
- Cydweithio ag asiantaethau allanol a chydlynu eu cyfraniad i'r rhaglen ARaPh.
- Gweithio gyda Rheini /Gwarchodwyr/Gofalwyr

9. Cysylltiadau rhwng Cyfnodau Allweddol: Mae'r ysgol yn cysylltu â'r Penaethiaid Safle/Penaethiaid Ffês er mwyn sicrhau dilyniant a datblygiad yn yr hyn a gyflwynir yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 ac er mwyn sicrhau darparu rhaglen effeithiol.

10. Rôl Darparwyr Allanol; Mae'r ysgol yn sylweddoli gwerth cyfraniad asiantaethau allanol priodol a siaradwyr gwadd i lwyddiant rhaglen ARaPh. Disgwylir i siaradwyr a staff proffesiynol allanol ddilyn

arweiniad yr ysgol ynglŷn â chynnwys ac egwyddorion cyflwyno Addysg Rhyw. Os daw asiantaethau allanol neu unigolion dieithr i gynnig eu gwasanaeth dylai aelod o staff yr ysgol fod yn bresennol drwy gydol y wers.

11. **Ymateb i faterion sensitif:** Ni ddylai credu personol ac ymagweddiadau athrawon effeithio ar y modd y cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthynas. Bydd athrawon yn gosod rheolau sylfaenol a dylid annog disgyblion i barchu barn a ffordd o fyw pobl eraill. Rhaid i athrawon geisio ymdrin â chwestiynau o natur sensitif mewn modd yr un mor sensitif, didwyll a diwahaniaethol.

12. Bydd cyflwynwyr Addysg Rhyw a Pherthynas yn dangos yn glir bod y rheolau a osodir i aelodau'r grŵp yr un mor berthnasol i'r athrawon eu hunain/arweinydd grŵp ac unrhyw ymwelwyr ddaw atynt.

13. **Babanod rhyngweithiol:** Defnyddir babanod rhyngweithiol fel rhan o raglen yr ysgol i addysgu disgyblion ma gyfrioldebau a heriau magu plant.

14. **Nyrs ysgol:** Mae nyrs ysgol yn treulio o leiaf un cyfnod cinio pob wythnos yn yr ysgol ar brif safle Ysgol Bro Idris. Bydd meddyg hefyd yn ymweld yn achlysurol**.** Gwasanaeth cyfrinachol yw hwn a chaiff ei gyflwyno ar y ddealltwriaeth bendant na fydd yr ysgol ar unrhyw gyfrif yn gofyn am wybodaeth a roddir i`r nyrs ysgol gan ddisgybl ac ni fydd yr ysgol yn cysylltu â`r cartref. Dylai rhieni sydd yn dymuno i`w plentyn beidio manteisio ar y gwasanaeth hwn gysylltu â`r ysgol ar bapur.

Gweithdrefnau monitro a gwerthuso

1. Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gan y Pennaeth Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, staff proffesiynol allanol a`r Corff Llywodraethol.

2. Bydd yr ysgol yn rhoi cyfle i'r disgyblion arfarnu sesiynau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar ddiwedd y rhaglen er mwyn iddynt leisio'i barn ar gynnwys y gwersi. Bydd yr ysgol wrth ddiwygio'r rhaglen yn ystyried barn y disgyblion.

3. Bydd dulliau gweithredu'r polisi yn cael eu monitro gan y Pennaeth Strategol a Phennaeth Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Ymgynghorir â'r bobl hyn pan adolygir y polisi:
    - Disgyblion.
    - Cyngor yr ysgol.
    - Rhieni/Gwarchodwyr/Gofalwyr.
    - Athrawon.
    - Corff Llywodraethol.
    - Gweithwyr proffesiynol Iechyd.
    - Asiantaethau Allanol.

Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasedd	
Mabwysiadwyd ddiwethaf: Corff Llywodraethol Ysgol Bro Idris, 12fed o Orffennaf 2018	
Dyddiad mabwysiadu nesaf: Tymor yr Haf 2021	
Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol: H.W Jones	
Dyddiad: 10/7/2017	
Llofnod y Pennaeth Strategol: J.Owen	
Dyddiad: 10/7/2017	

Pwrpas ac amcanion Addysg Bywyd a Pherthnasoedd yn Ffês 1 a 2 (Blynyddoedd 5 a 6)

Dysgu am gylch bywyd

I gadw'r disgyblion yn ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill

I helpu'r disgyblion ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesol

I helpu'r disgyblion siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff a pherthnasedd heb embaras

I ddarparu gwybodaeth am:

- enwau rhannau'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng gwryw a menyw
- cyffyrddiad priodol ac amhriodol
- perthynas cariadus
- newidiadau glasoed
- y broses atgenhedlu
- tyfiant y baban yn y groth a genedigaeth
- anghenion babanod a chyfrifoldebau rhieni

Cychwyn paratoi'r disgyblion am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol a'r profiadau maent yn debyg o wynebu.

I helpu'r disgyblion i addasu i newidiadau yn y teulu.

I helpu'r disgyblion i ddeall eu teimladau nhw eu hun a theimladau pobl eraill.

Dysgu'r disgyblion i barchu eu hunain ac eraill.

Iechyd a Lles Emosiynol

(Fframwaith Cyfnod Sylfaen/Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol 2008)

Deilliannau Cyfnod Sylfaen - Datblygiad Personol a Chymdeithasol,

Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Deilliant 2 - Cyfnod Sylfaen.

'Bydd y plant yn dod yn ymwybodol o'u teimladau a'u hemosiynau eu hunain, a byddant yn dechrau uniaethu a theimladau ac emosiynau pobl eraill. Byddant yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth i ddiogelwch personol.'

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen.

'Byddant yn adnabod ymddygiad priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb i reswm.'

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:-

gwerthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill, a chyfrannu ato

bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol

deall y berthynas rhwng teimladau a gwerthoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau.

tyfu'n annibynnol o safbwynt diwallu eu hanghenion o ran hylendid personol, a bod yn ymwybodol o ddiogelwch personol

gofyn am gymorth pan fo angen

mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau - rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill

bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu

cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mi fydd y disgyblion yn adnabod rhannau rhywiol o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng gwryw a menyw. Y termau y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer gwryw yw pidyn a cheilliau a'r eirfa ar gyfer benyw yw bronnau a gwain/fagina. Mi fydd y termau yma yn cael eu defnyddio wrth gyfeirio at y rhannau yma o'r corff wrth drafod y pwnc o fewn yr ysgol.

Cyfnod Sylfaen	
Enw rhannau o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng gwryw a menyw	cynllun gwersi amser cylch, taflen bachgen/merch, labeli rhannau o'r corff, golau traffig
Cyffwrdd priodol ac amhriodol	Taflenni o becyn Addysg Bywyd Ysgolion Iach:- cynllun gwersi amser cylch, golau traffig, taflen cyffwrdd, taflen cyfrinachau a theimladau, person cas, wrth bwy fedrai ddweud, fi fy hun

<u>Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol</u>

<u>Deilliannau Dysgu Cyfod Allweddol 2</u>

Cyfnod Allweddol 2

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wybod a ddeall:-

y nodweddon a manteision corfforol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â ffordd iach o fyw

y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasoed gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth

ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a theimladau ac emosiynau pobl eraill

pwysigrwydd diogelwch personol

sut i wahaniaethu rhwng cyffyrddiadau priodol a chyffyrddiadau amhriodol

beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel

Erbyn blwyddyn 6 mi fydd yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasoed gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth trwy agweddau ar wyddoniaeth, amser bugeiliol, ymweliadau

Cyfnod Allweddol 2		
Blwyddyn ysgol	**Addysg Bersonol a Chymdeithasol**	**Adnoddau**
Blwyddyn 3 a 4	**<u>Iechyd a lles emosiynol:</u>** -deall pwysigrwydd diogelwch personol -deall beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel -cymeryd cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach -bod yn bendant ac ymwrthod a dylanwad na ddymunir gan gyfoedion a phobl eraill **<u>Dinasyddiaeth weithgar:</u>** -gwerthfawrogi teulu a ffrindiau fel ffynhonnell o gymorth i'w gilydd -deall y manteision o gael teulu a ffrindiau, a'r problemau sy'n gallu codi -deall sefyllfaoedd sy'n esgor ar wrthdaro a natur bwlio -datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobol eraill -deall eu hawliau -deall y manteision o gael teulu a ffrindiau	Taflenni o becyn Addysg Bywyd Ysgolion Iach:- ffrind da, siart teimladau, fy nghyfrifoldebau sy'n newid, perthynas, cyfrinach dda/ddrwg, taflen mapio gwersi pecyn Sense

Cyfnod Allweddol 2		
Blwyddyn ysgol	**Addysg Bersonol a Chymdeithasol**	**Adnoddau**

Blwyddyn 5 a 6	**<u>Iechyd a lles emosiynol:</u>** -deall y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasoed gan gynnwys cenhedliad - deall ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain ac eraill -cymered cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach -deall pwysigrwydd diogelwch personol -deall beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel **<u>Datblygiad moesol ac ysbrydol:</u>** -deall sut mae gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn llywio'r ffordd y mae pobl yn byw -gwerthfawrogi amrywiaeth a chydnabod pwysigrwydd cyfle cyfartal	Taflenni o becyn Addysg Bywyd Ysgolion Iach:- rheolau/cytundeb dosbarth, cynlluniau gwersi CD Sense - glasoed a hylendid, rhyw, Taflen mapio gwersi pecyn Sense Ffurflen arfarnu gwersi Addysg Bywyd a Pherthnasoedd

<u>Cyflwyno'r Cwricwlwm Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasedd yn yr Ysgol:</u>

Cyflwynir Addysg Bywyd i ddisgyblion trwy:

sesiynau Amser Cylch

trwy bynciau penodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol e.e. Gwyddoniaeth

bynciau trawsgwricwlaidd

gyfleoedd anffurfiol e.e. croesawu mamau i ddod i siarad â phlant am anghenion babanod

Bydd cynnydd mewn dysgu yn cynnwys datblygu ac ymestyn y testun uchod ar adegau pendant yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 drwy ddatblygiad graddol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau a gwerthoedd.

<u>Arfer dda mewn rhaglenni Addysg Bywyd a Pherthnasoedd:</u>

Mae'r Ysgol yn adnabod yr arfer dda ganlynol a bydd staff yn eu mabwysiadu fel egwyddorion sylfaenol i raglenni Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasoedd

athrawon hyderus sydd wedi derbyn hyfforddiant addas

ymgynghori â disgyblion

ymgynghori â rhieni

penderfynu ar gytundeb dosbarth sylfaenol gyda'r plant

technegau ymbellhau

technegau dysgu anffurfiol/ymarferol

gwaith grŵp

athrawon yn sicrhau nad yw eu cred bersonol yn dylanwadu ar y rhaglen

canllawiau clir ar ffiniau a chyfrinachedd

Blwch Cwestiynau

Canllawiau ar faterion penodol ymwelwyr ac asiantaethau sy'n cyfrannu at Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasoedd:

Mi fydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw ymwelwyr proffesiynol ac ymwelwyr o'r gymuned sy'n cyfrannu at raglenni ABCh yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cytuno i'w ddilyn.

Bydd athrawon yn trafod cyfraniadau cyn i'r ymwelwyr wneud cyflwyniadau i'r disgyblion i sicrhau eu bod yn addas ac yn gweddu i bolisi'r ysgol

Cyfrinachedd (gweler isod)

Cyfrinachedd

Dylid nodi na all athrawon gynnig cyfrinachedd diamod. Os ydy'r plant yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin neu ddweud rhywbeth sy'n achosi'r athrawon i feddwl eu bod dan beryg o gael eu cam-drin rhaid dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Bydd yr athrawon yn trafod cyfrinachedd gyda'r disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffiniau cyfrinachedd.

Wrth drafod cytundeb dosbarth gofynnir i'r disgyblion hŷn i beidio â thrafod cynhwysion y gwersi gyda disgyblion iau.

Atgoffa'r disgyblion nad yw'n briodol gofyn cwestiynau personol.

Mi fydd y disgyblion yn cael eu hannog i drafod cynnwys y gwersi gyda'u rhieni/gofalwyr.

Ateb cwestiynau:

Bydd athrawon yn ceisio ateb cwestiynau cyffredinol y disgyblion yn onest wth ystyried oedran ac aeddfedrwydd y plentyn/plant.

Bydd yr athrawon yn defnyddio blwch holi sy'n rhoi cyfle i blant ofyn cwestiynau'n ddienw a chyfle i'r athrawon ystyried y cwestiynau cyn ymateb.

Os ydy disgybl yn gofyn cwestiwn am werthoedd bydd athrawon yn cyfeirio'r plentyn at ei deulu a cheisio osgoi rhoi ei safbwynt eu hun fel yr unig un cywir.

Os yw'r athro/athrawes yn methu ateb, anogir y plant i siarad gyda'i rhieni.

Atodiad 1: Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 3 Iechyd a Lles (Fframwaith ABCh 2008)

Bydd y staff yn ymdrechu i ddiwallu anghenion pob plentyn ac i ddelio'n ddoeth â materion o natur sensitif. Ymdrinir â'r materion canlynol yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.

1. **Aeddfedrwydd:** Mae gofyn paratoi bechgyn a genethod ar gyfer eu cyfnod aeddfedrwydd drwy roi iddynt wybodaeth a hyder fydd yn eu cynorthwyo i wynebu'r newidiadau corfforol ac emosiynol perthynol.
2. **Mislif** : Dylai bechgyn a genethod gael dysgu am gyflwr mislif a threfniadau sensitif a phwrpasol gael eu gwneud ar gyfer anghenion genethod.
3. **Atal cenhedlu:** Mae gan Addysg Rhyw a Pherthynas a gyflwynir yn effeithiol mewn Ysgol Uwchradd swyddogaeth bwysig yn yr ymdrech i leihau beichiogrwydd ymhlith merched ifanc oed ysgol. Caiff disgyblion wybodaeth drylwyr am wahanol fathau o ddulliau atal cenhedlu, a hynny'n cynnwys dulliau atal cenhedlu brys a'u heffeithiolrwydd. Rhoddir arweiniad ychwanegol ar sut i gael cyngor cyfrinachol, cyngor ymarferol, ac os bydd ei angen triniaeth briodol. Rhaid cadw cydbwysedd deallus rhwng cadw at lythyren y ddeddf a'r angen i gynnig cyngor sensitif a thriniaeth.
4. **Erthyliad neu derfynu beichiogrwydd**: Dylai cynnwys rhaglen ARhPh alluogi disgyblion i wybod manylion erthyliad a deall y goblygiadau, gwerthfawrogi sail gwahanol ddaliadau, a datblygu sgiliau cyfathrebu fyddai'n hwyluso'r dasg o drafod gyda rhieni a phroffesiynolwyr iechyd. Dylid parchu argyhoeddiad crefyddol plant a'u rhieni.
5. **Rhyw Diogel a Heintiau Trosglwyddiad Rhywiol gan gynnwys HIV/AIDS:** Rhoddir i ddisgyblion uwchradd wybodaeth ffeithiol am ryw diogel a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'n effeithiol y gwasanaethau sy'n helpu i atal/i drin heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV/AIDS.' Deuant i ddeall beth sy'n arfer peryglus ac i feithrin sgiliau pendantrwydd mewn perthynas ag eraill ac i osgoi cael eu dylanwadu, yn groes i'w graen, i gymryd rhan mewn gweithred rywiol neu weithred rywiol ddiamddiffyn.
6. **Tueddiadau Rhywiol;** Anogir disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth deimladol a pharch tuag at eraill waeth beth fo'u tueddiadau rhywiol. Fe'u cefnogir i barchu cyd-ddyn a chydnabod bod amrywiaeth a gwahaniaethau yn bodoli mewn bywyd dynol.

Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 3 Iechyd a Lles

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- Ddangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- Ddatblygu agwedd cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill.

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- Y gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol.
- Am atal cenhedlu, heintiau rhywiol a drosglwyddir yn rhywiol a HIV o fewn cyd-destyn perthnasoedd.
- Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth.
- Rôl priodas, pwysigrwydd perthnasoedd teulu sefydlog a chyfrifoldebau rhieni.
- Yr ystod o emosiynau y maent yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â theimladau negyddol.
- Y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor.

Datblygiad Moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- Y gwerthoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd.
- Eu credoau yng nhyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas.

Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 4 Iechyd a Lles

Dylai roi cyfle i'r dysgwyr:

- Dderbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- Ddatblygu agwedd gyfrifol at gydberthnasau personol.

Dylai roi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- Y canlyniad byrdymor a'r canlyniad mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol.
- Yr ystod o agweddau, cydberthnasau ac ymddygiad rhywiol a geir mewn cymdeithas.
- Pwysigrwydd iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys achosion posibl o ecsbloetio rhywiol
- Y nodweddion sy'n perthyn i fod yn rhiant effeithiol, ac effaith colled a newid ar gydberthnasau
- Y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol.
- Sut i gael mynediad i gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn hyderus

Datblygiad Moesol ac ysbrydol

Dylai roi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- Sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar ffordd o fyw a hunaniaeth bersonol.
- Y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol.
- Yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywyd pobl.
- Y gwerthoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd.
- Eu credoau yng nhyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas.

Atodiad 2: Polisi Addysg Rhyw - Canllawiau i athrawon

Ymateb i gwestiynau, pryderon a cheisiadau am gyngor gan ddisgyblion.

Nod yr ysgol, ar y cyd â rhieni a staff proffesiynol allanol, yw darparu rhaglen Addysg Rhyw gyfansawdd a chydlynus sy`n rhoi`r sicrwydd i ddisgyblion y bydd eu pryderon a`u ceisiadau am gyngor yn cael eu delio gyda chydymdeimlad ac mewn dull realistig.

Dylai pob aelod o staff wybod cynnwys Polisi Addysg Rhyw yr ysgol a`r canllawiau hyn. Dylid hefyd sicrhau fod pob asiantaeth allanol a ddefnyddir gan yr ysgol i gynnal y rhaglen Addysg Rhyw yn gyfarwydd â`r polisi a`i oblygiadau.

Mae`r canllawiau isod yn galluogi staff i ymateb yn y dull mwyaf addas i anghenion disgyblion o fewn cyfyngiadau`r gyfraith.

1. Mae`n bwysig gwahaniaethu rhwng rôl yr ysgol o ddarparu addysg am faterion yn ymwneud â rhyw ar y naill law a darparu cyngor am ryw ac ymddygiad rhywiol i ddisgyblion unigol ar y llaw arall.

2. Yr egwyddor waelodol yw fod rhoi cyngor i ddisgybl unigol e.e. am atal-cenhedlu yn annerbyniol ac o bosibl yn anghyfreithlon.

3. Dylai system gyfeirio`r ysgol ganiatau i ddisgyblion gael dod i gyswllt â chefnogaeth ac arweiniad addas yn ôl yr angen e.e. y nyrs ysgol.

4. Rhaid derbyn y gall unrhyw aelod o staff dysgu neu siaradwyr allanol wynebu sefyllfa (wrth drafod pynciau sydd ar yr olwg gyntaf heb ddim oll i`w wneud â rhyw) lle mae angen iddynt ddelio â materion yn ymwneud â rhyw. Mewn sefyllfa o`r fath:

- Dylai athrawon gau pen y mwdwl ar bynciau sy`n anaddas ar gyfer trafodaeth dosbarth neu sydd yn gyfangwbl y tu allan i gyd-destun y drafodaeth.
- Dylai athrawon ymateb i gwestiynau a materion sy`n codi`n naturiol mewn trafodaeth mewn dull cadarnhaol ond dylid cyfyngu ar drafodaeth ddosbarth.
- Pan fydd disgyblion yn codi materion sy`n anaddas ar gyfer trafodaeth ddosbarth (neu sy`n berthnasol ar gyfer disgybl unigol yn unig) dylai`r aelod o staff drafod y mater gyda`r disgybl yn unigol (ond nid ar ei ben ei hun) ac awgrymu y dylai`r disgybl drafod y mater yn fanylach gyda`i rieni neu ar y cyd ag aelod arall o staff.
- Os yw`r aelod o staff o`r farn fod y disgybl mewn unrhyw fath o berygl yna dylid dilyn y drefn a amlinellir isod ym mhwynt 6.

5. Ceisiadau am Gyngor: Mae`n bosibl y gall disgybl ddod at unrhyw aelod o staff yn yr ysgol a gofyn:

- cyngor am ddulliau atal-cenhedlu
- cyngor am agweddau o ymddygiad rhywiol.

Wrth ymateb i geisiadau o`r fath dylai athrawon ystyried rôl, cyfrifoldebau a hawliau rhieni.

I. Dylai`r ymateb gynnig y gefnogaeth angenrheidiol a dull o gael y cyngor angenrheidiol. Dylai aelodau o staff annog disgyblion i ofyn am gyngor am agweddau o ymddygiad rhywiol gan eu rhieni neu un o`r asiantaethau iechyd proffesiynol.e.e. canolfan iechyd, nyrs ysgol (ymweliadau wythnosol).
II. Ni ddylai aelodau o staff warantu cyfrinachedd.
III. Ni ddylai aelodau o staff roi cyngor am atal cenhedlu i ddisgyblion unigol o dan 16 mlwydd oed.
IV. Ni ddylai aelodau o staff esgusodi na chyfiawnhau unrhyw weithred anghyfreithlon gan ddisgyblion.
V. N i ddylai aelodau o staff hyrwyddo ymddygiad hoyw.

6. Os yw aelod o staff o`r farn fod gweithredoedd disgybl am wneud niwed corfforol, meddyliol neu foesol iddo/iddi, dylai`r aelod o staff ddilyn canllawiau 'Amddiffyn Plant' gan:

- geisio sicrhau fod y disgybl yn deall goblygiadau ei ymddygiad
- annog y disgybl i gael cymorth
- hysbysu`r Cydgysylltydd Amddiffyn Plant neu`r Pennaeth.

7. Mewn achos o`r fath, dylai`r Cydgysylltydd Amddiffyn Plant neu`r Pennaeth Safle:

- annog y disgybl i hysbysu ei rieni/gwarchodwr.
- gefnogi ac estyn cymorth i`r disgybl gysylltu â`i rieni os oes angen.
- sicrhau fod yr uchod yn digwydd.
- drafod â holl aelodau perthnasol y staff.
- gynnwys gwasanaeth cefnogol arbenigol yn ôl y galw neu`r angen.

8. Dylai unrhyw aelod o staff sy`n amau fod disgybl yn cael ei gamdrin ddilyn y canllawiau a nodir yn y polisi 'Amddiffyn Plant'.